# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ22769, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 4 Mawrth 2003

**At Janet Davies:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth 2003 codasoch sawl mater ynglŷn â'r gwerthusiad interim arfaethedig o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Dywedais y byddwn yn darparu ateb ysgrifenedig llawn.

Mae chwe chorff wedi cael gwahoddiad i dendro erbyn 28 Mawrth 2003 am y contract i ymgymryd â'r gwerthusiad interim. Maent wedi cael eu gwahodd i wneud hynny ar sail y fanyleb sydd ynghlwm, sy'n cynnwys gofyniad yn adran 5.1 (ii) am broffiliau ardal. Bydd yn ofynnol i'r contractwr llwyddiannus lunio proffiliau 'sylfaenol' am bob un o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Bydd modd mesur newid i'r dyfodol yn erbyn y rhain. Y bwriad yw y dylai'r proffiliau ddarparu 'cipddarlun' o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd a, lle bo hynny'n bosibl, wybodaeth am dueddiadau neu newidiadau diweddar yn yr ardal, cyn dyfeisio Cymunedau yn Gyntaf. Ategir y proffiliau lleol gan broffiliau cymharol i Gymru gyfan ac i'r rhanbarthau swyddogaethol y mae pob ardal Cymunedau yn Gyntaf yn perthyn iddi. O dan Adran 5.1 (iv) y fanyleb mae'n ofynnol i'r contractwr asesu unrhyw effeithiau dadleoli. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod i ba raddau y mae gweithgareddau a ddymunir sy'n cael eu hysgogi drwy'r rhaglen mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn arwain at ostyngiadau yn rhywle arall.

Tra bo'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei chynllunio i bara am o leiaf 10 mlynedd, byddai ystyriaethau ymarferol yn ei gwneud hi'n anodd pennu, a chostio, rhaglen o waith ymchwil dros gyfnod cyn hired â hyn yn llawn. Tynnir sylw at hyn yn adran 9.3 y fanyleb. Bydd y contract am y gwerthusiad interim yn cael ei osod am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am gyfnod pellach o ddim mwy na dwy flynedd. Mae cost y contract tair blynedd hwn yn dibynnu ar y broses dendro, ond mae cost ddangosol o £600,000 i £800,000 wedi cael ei rhoi yn y fanyleb.

Yn amlwg, bydd canlyniadau'r gwerthusiad hwn yn bwysig iawn o safbwynt datblygu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'n polisïau adfywio cymunedol ehangach ymhellach. Bydd swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r contractwr llwyddiannus i sicrhau bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu lledaenu a'u defnyddio mor eang â phosibl.

## Gwybodaeth ychwanegol at y cwestiwn atodol i OAQ22774, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 20 Mawrth 2003

**At Kirsty Williams:**

Mewn ymateb i'ch cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth 2003 ynglŷn â rhoi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar waith, yr wyf yn falch o'ch hysbysu am y sefyllfa ar hyn o bryd a'r cynlluniau ar gyfer Cymru.

Bydd gweithredu mewn 12 safle gweithredu cynnar yn Lloegr yn dechrau ym mis Mehefin eleni, yn amodol ar gymeradwyaeth cyrff staff, yn dilyn ymarferiad ymgynghori mawr a chynnal pleidleisiau. Bwriedir rhoi'r cynllun ar waith yng ngweddill y DU, yn cynnwys Cymru, ym mis Hydref 2004.

Er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol yng Nghymru, mae strwythur a chynllun gweithredu cynhwysfawr yn cael eu sefydlu. Penodwyd cyfarwyddwr moderneiddio cyflogau ac mae tîm

cymorth yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd. Defnyddir dull o weithredu drwy bartneriaeth ym mhob agwedd o'r gwaith ac mae tîm prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch reolwyr y gwasanaeth a chynrychiolwyr staff, hefyd yn cael ei ddatblygu.

Mae is-grŵp o Fforwm Partneriaeth Cymru eisoes wedi cael ei sefydlu a lluniwyd cysylltiadau ffurfiol gyda'r grwpiau gweithredu yn y tair gwlad arall i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu.

Mae cyfarfodydd briffio i uwch reolwyr eisoes wedi dechrau ac mae cyflwyniadau pellach ar y gweill ar gyfer y misoedd i ddod. Yn amodol ar gymeradwyaeth cyrff staff, bydd y system newydd yn cael ei rhoi ar waith wedyn drwy gyfrwng llawer iawn o hyfforddiant ymwybyddiaeth, hyfforddiant technegol, trefniadau rheoli prosiectau, rhannu arferion gorau ac ati. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision llawn yr 'Agenda ar gyfer Newid' yn amlygu eu hunain i'r gweithwyr, a hefyd i'r gwasanaeth, drwy well gofal i gleifion.

Dosbarthir llyfrynnau gwybodaeth cyn bo hir, sy'n manylu ar yr 'Agenda ar gyfer Newid', i'r holl staff o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yr effeithir arnynt.

Yr wyf wedi ymrwymo i gyllido'r gwaith o weithredu'r 'Agenda ar gyfer Newid' yn llawn. Mae Derek Wanless, awdur adolygiad cynhwysfawr y Canghellor o ddyfodol y GIG, yn rhoi cyngor ynglŷn ag adolygiad o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd ffrwyth yr adolygiad hwn yn hollbwysig o safbwynt gosod yr agenda ar gyfer diwygio'r GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dyna'r rheswm pam mai cynnydd cymharol fach i'r gyllideb iechyd ar gyfer 2004-05 a 2005-06 sydd wedi'i gynnwys yng nghyllideb ddiweddaraf y Cynulliad. Canlyniad yr adolygiad iechyd a gofal cymdeithasol fydd yn pennu'r dyraniad adnoddau y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf i wneud yn siŵr bod unrhyw fuddsoddi yn dod law yn llaw â diwygio a chyflawni.